

**MEETING OF THE HEALTHIER COMMUNITIES OVERVIEW & SCRUTINY  
COMMITTEE  
OF TORFAEN COUNTY BOROUGH COUNCIL  
Held on Thursday, 27 September 2018 at 10:00 am  
In the Council Chamber, Civic Centre, Hanbury Road, Pontypool, NP4 6YB**

**MINUTES**

**Attendance: Members of the Committee**

**Councillors:**

Leonard Constance  
Nicholas Jones  
Rose Seabourne

Janet Jones  
Jason O'Connell (Chair)  
Emma Rapier

**Officers:**

Helen Deakin, Senior Corporate Improvement & Scrutiny Officer  
Rebecca Fahey-Jones, Corporate Scrutiny & Democratic Services Officer  
Jason O'Brien, Head of Children's Services  
Dominique Redman, Senior Business Support Officer (Democratic Services)

**1 Welcome & Apologies**

1.1 Apologies for absence were received from Councillors Mike Jeremiah, Fay Jones & Sue Malson.

**2 Declarations Of Interest**

2.1 There were no declarations of interest.

**3 Minutes 05.07.18**

3.1 The minutes of the meeting held on 5 July 2018 were confirmed as an accurate record of the meeting.

3.2 The Corporate Scrutiny and Democratic Services Officer (CS&DSO) referred to the meeting held on 8 February 2018 where members acknowledged the successful partnership work on dementia awareness and requested a further awareness raising session for elected members and staff. The CS&DSO informed members that this session was held on 10 September 2018.

**4 Supporting vulnerable children - A strategic approach from Early Intervention to Crisis Care**

4.1 The Committee welcomed Jason O'Brien, Head of Children's Services (HoCS). In response to questions asked by members, the HoCS made the following main points:

- Significant work, in particular preventative work, was being undertaken within Children's Services and with partner agencies in order to support parents in developing their own strengths.
- A broad range of services from minor intervention to significant and statutory intervention were accessible to parents.
- The Rapid Response Team was a new and highly regarded service which provided a high level of support and determined a family's ongoing needs.
- Specific details of the eight week programme would depend on initial assessment and the level of support required by a family.
- Levels of support could range from a child being on the edge of care, to practical support - for example liaising with colleagues in health and education to ensure that the child attends school and health appointments.
- Good relationships were in place with colleagues in education and health.
- Accessibility to partner agency services was dependent on the resources available within each agency and the agency's ability to deploy their own resources.
- Every effort was made to ensure that broad family plans were in place and also that all agencies were clear in terms of the family's needs, the main objective and the outcome.
- Care and support planning processes were in place in order to bring all key agencies together.
- Although good links were in place with Child and Adolescent Mental Health Service (CAMHS), there were some gaps around in terms of being able to access this service in a timely manner.
- The Children and Young People's Strategic Board worked with CAMHS on a regional basis. A 'pyramid model' was currently in place with less focus being given to preventative work.
- Significant work around CAMHS was being undertaken across Wales in order to establish ways that CAMHS could intervene and deploy resources on an identified needs basis.
- Early identification of vulnerabilities within families were sometimes missed due to reductions in the level of service once provided, particularly in terms of Health Visitors.
- There were warning signs in many cases from families that were known to the service. If issues were identified through any professional involvement with families, appropriate referrals would be made.
- Pre-birth referrals were sometimes received through the midwifery process.
- A whole system approach stemmed from early intervention and the ability to work with families ensuring that the right service is provided at the right time. To assist towards creating a seamless approach, Families First had recently been incorporated within Children's Services.
- Torfaen Young Peoples Support Service (TYPSS) was a highly regarded service inside and outside of the authority and was a

good multi-agency model.

- The Rapid Response service was a relatively new service and outcomes of the first four months were being evaluated. Early stages of evaluation indicated that this service was effective.
- The Multi-disciplinary Intervention Support Team (MIST) was being evaluated regionally. The MIST project was effective in bringing young people back in-house from high cost residential placements.
- Torfaen had been the pioneer of MIST and other authorities were setting up a MIST provision based on the success of MIST in Torfaen.
- In terms of lessons learned, the importance of a seamless approach and alignment of services had been recognised. Prevention and early intervention was the key focus in moving forward.
- The new Additional Learning Needs (ALN) Bill had been taken into consideration to a certain extent. Meetings had been held with the Lead for ALN and, although this service hadn't been incorporated fully, discussions had been held around some of the changes that might take place.
- Transformation funds had been secured and a Group Manager had been appointed. The Group Manager would have overall responsibility of Families First, Family Focus and Rapid Response.
- The number of referrals progressed through the system was significantly higher in the north of the borough than in the south.
- Work was being undertaken with Mark Sharwood, Public Service Development Manager, around initial referrals and decision making processes.
- Consideration was being given around more effective 'front door' systems and ways to align Customer Care with Children's Services.
- Resources from Children's Services and Adult Services with the professional ability to deal with queries at the front door would be required and it was possible that an external consultant might be required to undertake a review in order to establish a more effective system.
- Success would be measured in terms of early intervention, ensuring that those trying to access the services were pointed in the right direction and the ability to deliver the right service at the right time.
- The long term overall objective was to prevent families and children from entering the system and to reduce Looked After Children (LAC) figures.
- Although there had been an increase in LAC figures, evidence in terms of levels of support and care plans pointed towards a greater level of transformation. These figures had been tested effectively through courts processes.
- Deficiencies relating to information sharing had been improved by integrating Families First and being able to operate on a shared

database.

- The introduction of recent legislation around information sharing had caused difficulties in terms of multi-agency information sharing, however, effective understandings were in place with colleagues in terms of establishing required information.
- MIST operated on a separate database and consideration was being given around how to align this with other services.
- Families First was previously funded separately, however, this was no longer the case and this could cause some difficulties in the future in terms of resources.
- The transformation programme was funded separately.
- Some children had previously received the wrong tier of support, however, this matter was being rectified by integrating Families First.
- Many families were known to the service through generational issues.
- Intervention in terms of parenting skills was provided through Family Focus and Rapid Response Teams.
- Domestic violence and substance misuse were the current main issues in terms of LAC.
- Heads of Children's Services met regularly to discuss the impact of caseloads across neighbouring authorities. Experiences were similar across the board and the LAC figures had increased in all neighbouring authorities.
- Work was being undertaken with local authorities further afield to review evidence of where the LAC population had stabilised and to consider lessons that can be learned.
- The Rapid Response Team and Family Focus were evidence based models. Due to the workloads and responsiveness of social workers, it was sometimes difficult to embed evidence based approaches concerning front line teams.
- LAC figures for local authority areas had not yet been updated. Welsh Government figures were expected to be published during September. Local authorities in Wales were in the process of establishing each other's figures, however it was known that these figures had risen within each authority across Wales.
- The new Group Manager who had been in post for three months would be reviewing strategies in terms of early intervention and prevention.
- The transformation agenda was designed to encourage families to self-help.
- In terms of future generations, the objective was to reduce dependence and for the service to be accessed as a last resort.
- In terms of measuring and judging whether the transformation agenda had been successful, the end result should be around outcomes and ensuring safeguarding.
- Even though the LAC figure was high, officers were confident that the right children were currently in care in Torfaen.
- It was recognised that there was further work to be undertaken around effectively discharging some of the looked after children.

- A Wales wide piece of work was ongoing in terms of outcome based assessments. Experiences of children who went on to be adopted were being reviewed.
- Torfaen had been cited as one of the local authorities where young people had experienced the least amount of moves.
- The benefits of adoptive placements were recognised and support was provided for adoptive parents.
- The Institute of Public Care (IPC) report pointed to the timeliness by which the authority had achieved permanence for children. Torfaen had been placed in the top bank for this.
- After reviewing services and considering the direction of travel, there were a number of changes to be made. This would involve a review of thresholds, policy changes in the Family Placement Team, involving the management and Children's Services Team and ensuring that services were being shared. It was hoped there would be minimal disruption with this approach and the expertise of staff would be used to deliver changes gradually.
- During integration of service transformation with existing plans and strategies, in order for all organisations to contribute fully to the seven national well-being goals, adult services would be integrated with the directorate, regional work with children's services would continue, the effectiveness of the integrated care fund would be considered and partnership working with health and the police would continue.
- In terms of practical steps, a broad range of meetings were being held and work was being undertaken with health colleagues and education around some of the emotional wellbeing issues that children experienced.
- Collaboration was ongoing with key partners and statutory partners such as the Police and Bron Afon and also colleagues from health, education, Public Services Support Unit and Community Safety.
- There were some issues with the court system which were significantly impacting children's services.
- The 'Don't Walk By Strategy' was in the process of being implemented. There was further work to be undertaken around the integration of Families First.
- Significant research evidenced that early intervention within the first 1000 days of a child's life is crucial to the development of a child. Although most referrals were for children older than this, every effort was made to obtain permanence for a child as early as possible for their future generations.
- Further work was required in order for partners and the public to understand the criteria for Families First.

4.2 The Chair thanked the HoCS for attending and praised the work of his staff.

4.3 On completion of the scrutiny activity, the Committee concluded by

offering the following comments and recommendations for consideration:

**Recommendation 1:-**

CAMHS has been the subject of recommendations made by the Healthier Communities O&S Committee previously. Whilst the committee appreciates the difficulties faced by CAMHS in being able to reduce demand on the service due to capacity, the committee recommend that mitigation measures to address the gaps in provision are identified and communicated as a priority.

**Recommendation 2:-**

Following a brief update from the Head of Children's Services, members recommend that the evaluation of the rapid response service be brought back before the committee prior to any decisions being made.

**Recommendation 3:-**

A greater emphasis should be placed on Additional Learning Needs (ALN) support within the transformation agenda. Members were concerned that the transformation process does not comprehensively cover and address all the changes that are being implemented following the introduction of The Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018.

**Recommendation 4:-**

The committee recommend that they be given the opportunity to scrutinise the appropriateness and progress of implementation of the transformation plan.

**Recommendation 5:-**

The transformation programme should incorporate the five ways of working under the Well-being and Future Generations Act more comprehensively than a simple statement of it lending to a longer term approach that will impact on future generations.

**Recommendation 6:-**

The committee were concerned that there are significant differences between the workings of the north and south teams. It is recommended that an evaluation be carried out to ensure the practice of both teams is standardised and work is carried out to the same guidelines.

**Recommendation 7:-**

It is recommended that 'supporting people to strengthen their family relationships, identify and resolve difficulties for themselves' be the key

message communicated as part of transformation process.

**Recommendation 8:-**

The dedicated customer service triage provision for Children’s Services be made operational as a priority to ensure for those people in need of support, the right level of support is identified at first point of contact.

The service should also be monitored closely to assess effectiveness and impact.

The committee also concluded that they would like to offer the following overall views:

The Healthier Communities O&S Committee would like to convey their thanks to the Head of Children’s Services and congratulate him on the work that has been carried out within the first seven months of his appointment. The committee were pleased to hear that he had undertaken a process of observation for a period before making any decisions on how to take the service forward. The committee would welcome him back in the near future to look at the proposals for service direction he sets out.

**5 Item for Next Meeting**

5.1 The Chair advised that he would discuss the item for consideration at the next meeting with Scrutiny Officers and circulate to the Committee for comments.

**6 Date of Next Meeting 22.11.18**

6.1 The next meeting is scheduled to take place on Thursday 22 November at 10:00am in the Council Chamber, Civic Centre, Pontypool.

**Signed .....** **Chair** **Date.....**

Minutes produced by Dominique Redman, Senior Business Support Officer - Democratic Services, 4.10.2018

**CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWIG A CHRAFFU CYMUNEDAU IACHACH  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN  
A gynhaliwyd ar ddydd Iau, 27 Medi 2018 am 10:00 am  
Yn Siambr y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Ffordd Hanbury, Pont-y-pŵl, NP4  
6YB**

**COFNODION**

**Yn bresennol: Aelodau'r Pwyllgor**

**Y Cynghorwyr:**

Leonard Constance  
Nicholas Jones  
Rose Seabourne

Janet Jones  
Jason O'Connell (Cadeirydd)  
Emma Rapier

**Swyddogion:**

Helen Deakin, Uwch Swyddog Gwella a Chraffu Corfforaethol  
Rebecca Fahey-Jones, Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democraidd  
Corfforaethol  
Jason O'Brien, Pennaeth Gwasanaethau Plant  
Dominique Redman, Uwch Swyddog Cymorth Busnes (Gwasanaethau  
Democraidd)

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mike Jeremiah, Fay Jones a Sue Malson.

**2 Datgan Buddiannau**

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3 Cofnodion 05.07.18**

3.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3.2 Cyfeiriodd y Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democraidd Corfforaethol (CS&DSO) at y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2018 pan gydnabu'r aelodau'r gwaith partneriaeth llwyddiannus ar ymwybyddiaeth o ddementia a gofynnodd am sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth pellach ar gyfer aelodau etholedig a staff. Hysbysodd y CS&DSO yr aelodau bod y sesiwn hwn wedi ei gynnal ar 10 Medi 2018.



#### **4 Cefogi plant sy'n agored i niwed – Dull Strategol o Ymyrraeth Gynnar i Ofal mewn Argyfwng**

4.1 Croesawodd y Pwyllgor Jason O'Brien, Pennaeth Gwasanaethau Plant (HoCS). Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, gwnaeth y HoCS y prif bwyntiau canlynol:

- Roedd gwaith arwyddocaol, yn enwedig gwaith rhwystro, yn cael ei wneud o fewn y Gwasanaethau Plant a chydag asiantaethau partner er mwyn cynorthwyo rhieni i ddatblygu eu cryfderau eu hunain.
- Roedd amrediad eang o wasanaethau o fân ymyrraeth i ymyrraeth arwyddocaol a statudol ar gael i rieni.
- Roedd y Tîm Ymateb Cyflym yn wasanaeth newydd ac uchel ei barch a oedd yn cynnig lefel uchel o gymorth ac a oedd yn penderfynu ar anghenion parhaus teuluoedd.
- Byddai manylion penodol y rhaglen wyth wythnos yn dibynnu ar asesiad cychwynnol a lefel y cymorth roedd ei angen ar y teulu.
- Gallai lefelau cymorth amrywio o blentyn ar ymyl gofal, i gymorth ymarferol – er enghraifft cysylltu gyda chydweithwyr iechedd ac addysg i sicrhau bod y plentyn yn mynychu'r ysgol ac apwyntiadau iechedd.
- Roedd perthynas dda gyda chydweithwyr addysg ac iechedd.
- Roedd mynediad at wasanaethau asiantaethau partner yn dibynnu ar yr adnoddau a oedd ar gael o fewn pob asiantaeth a gallu'r asiantaeth i ddefnyddio ei hadnoddau ei hun.
- Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod cynlluniau teuluol cyffredinol yn bodoli a hefyd bod pob asiantaeth yn glir o ran anghenion y teulu, y prif amcan a'r canlyniad.
- Roedd prosesau cynllunio gofal a chymorth yn bodoli er mwyn dod â'r holl asiantaethau allweddol at ei gilydd.
- Er bod cysylltiadau da gyda'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), roedd rhai bylchau o ran medru cael mynediad at y gwasanaeth hwn yn amserol.
- Roedd Bwrdd Strategol Plant a Phobl Ifanc yn gweithio gyda CAMHS ar sail rhanbarthol. Roedd 'model pyramid' yn bodoli ar hyn o bryd gyda llai o ffocws yn cael ei roi ar waith rhwystro.
- Roedd gwaith arwyddocaol yn cael ei wneud o amgylch CAMHS ledled Cymru er mwyn sefydlu ffyrdd lle gallai CAMHS ymyrryd a defnyddio adnoddau ar sail anghenion a adnabuwyd.
- Roedd gwendidau cynnar mewn teuluoedd yn cael eu methu weithiau oherwydd gostyngiadau yn lefel y gwasanaeth unwaith roedd wedi ei ddarparu, yn enwedig o ran Ymwelwyr Iechyd.
- Roedd arwyddion rhybuddio mewn nifer o achosion gan deuluoedd a oedd yn adnabyddus i'r gwasanaeth. Os adnabuwyd problemau drwy gyfrwng unrhyw ymgysylltiad proffesiynol gyda theuluoedd, byddai atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud.
- Roedd atgyfeiriadau cyn geni weithiau'n cael eu derbyn drwy'r gwasanaeth bydwreigiaeth.
- Roedd dull system gyfan yn deillio o ymyrraeth gynnar a'r gallu i

weithio gyda theuluoedd gan sicrhau bod y gwasanaeth priodol yn cael ei ddarparu ar yr adeg briodol. I gynorthwyo gyda chael dull di-dor, roedd Teuluoedd yn Gyntaf yn ddiweddar wedi ei ymgorffori o fewn y Gwasanaethau Plant.

- Roedd Gwasanaeth Cymorth Pobl Ifanc Torfaen (TYPSS) yn wasanaeth uchel ei barch y tu mewn a'r tu allan i'r awdurdod ac yn fodel aml-asiantaeth da.
- Roedd y gwasanaeth Ymateb Cyflym yn wasanaeth cymharol newydd ac roedd canlyniadau'r pedwar mis cyntaf yn cael eu gwerthuso. Roedd arwyddion cynnar yn awgrymu bod y gwasanaeth hwn yn effeithiol.
- Roedd y Tîm Cymorth Ymyrraeth Aml-asiantaeth (MIST) yn cael ei werthuso'n rhanbarthol. Roedd prosiect MIST yn effeithiol o ran dod â phobl ifanc yn ôl yn fewnol o leoliadau preswyl cost uchel.
- Roedd Torfaen wedi arloesi gyda MIST ac roedd awdurdodau eriall yn sefydlu darpariaeth MIST yn seiliedig ar ei lwyddiant yn Nhorfaen.
- O ran gwersi a ddysgwyd, roedd pwysigrwydd dull di-dor ac alinio gwasanaethau wedi ei gydnabod. Rhwystro ac ymyrraeth gynnar oedd y ffocws allweddol wrth symud ymlaen.
- Roedd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi ei gymryd i ystyriaeth i ryw raddau. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Pennaeth ar gyfer ADY ac, er nad oedd y gwasanaeth hwn wedi ei ymgorffori'n llwyr, cafwyd trafodaethau o ran rhai o'r newidiadau a allai ddigwydd.
- Roedd cyllid trawsnewid wedi ei sicrhau a Rheolwr Grŵp wedi ei benodi. Byddai gan y Rheolwr Grŵp gyfrifoldeb cyffredinol am Deuluoedd yn Gyntaf, Ffocws ar y Teulu ac Ymateb Cyflym.
- Roedd nifer yr atgyfeiriadau sy'n symud drwy'r system yn arwyddocaol uwch yng ngogledd y fwrdeistref na'r de.
- Roedd gwaith yn cael ei wneud gyda Mark Sharwood, Rheolwr Datblygu Gwasanaethau Cyhoeddus ar atgyfeiriadau cychwynnol a phrosesau cymryd penderfyniad.
- Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i systemau 'drws ffrynt' mwy effeithiol a dulliau o alinio Gofal Cwsmeriaid gyda Gwasanaethau Plant.
- Byddai angen adnoddau o Wasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion gyda'r gallu proffesiynol i ddelio gydag ymholiadau wrth y drws ffrynt ac roedd yn bosibl y byddai angen ymgynghorydd allanol i ymgymryd ag arolwg er mwyn sefydlu system fwy effeithiol.
- Byddai llwyddiant yn cael ei fesur yn nhermau ymyrraeth gynnar, gan sicrhau bod y rhai sy'n ceisio defnyddio'r gwasanaethau yn cael eu pwyntio yn y cyfeiriad iawn, a'r gallu i gyflenwi'r gwasanaeth priodol ar yr adeg briodol.
- Yr amcan hirdymor oedd rhwystro teuluoedd a phlant rhag mynd i mewn i'r system a gostwng y ffigwr Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC).
- Er y bu cynnydd yn y ffigurau LAC, roedd tystiolaeth o ran lefelau cymorth a chynlluniau gofal yn awgrymu lefel uwch o

drawsnewid. Roedd y ffigurau hyn wedi eu profi'n effeithiol drwy brosesau'r llys.

- Roedd diffygion o ran rhannu gwybodaeth wedi eu gwella drwy integreiddio Teuluoedd yn Gyntaf a medru gweithredu ar ddatbas a rennir.
- Roedd cyflwyniad deddfwriaeth yn ddiweddar ar rannu gwybodaeth wedi achosi anawsterau o ran rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, ond roedd dealltwriaeth yn bodoli gyda chydweithwyr mewn perthynas â sefydlu'r wybodaeth ofynnol.
- Roedd MIST yn gweithredu ar ddatbas ar wahân ac roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i alinio hwn gyda gwasanaethau eraill.
- Roedd Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ariannu ar wahân yn y gorffennol, ond nid oedd hyn yn wir bellach a gallai hyn achosi anawsterau yn y dyfodol o ran adnoddau.
- Roedd y rhaglen drawsnewid yn cael ei hariannu ar wahân.
- Roedd rhai plant yn y gorffennol wedi derbyn y rheng anghywir o gymorth, ond roedd hyn yn cael ei gywiro drwy integreiddio Teuluoedd yn Gyntaf.
- Roedd llawer o deuluoedd yn hysbys i'r gwasanaeth oherwydd problemau i lwar y cenedlaethau.
- Darperid ymyrraeth mewn perthynas â sgiliau rhianta drwy'r timau Ffocws ar y Teulu ac Ymateb Cyflym.
- Trais domestig a chamddefnyddio sylweddau oedd y prif broblemau ar hyn o bryd mewn perthynas â LAC.
- Roedd penaethiaid Gwasanaethau Plant yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod effaith baich achosion ar draws awdurdodau cyffiniol. Roedd profiadau yn debyg i bawb ac roedd ffigurau LAC wedi codi ym mhob un o'r awdurdodau cyffiniol.
- Roedd gwaith yn cael ei wneud gydag awdurdodau lleol ymhellach i ffwrdd i arolygu tystiolaeth o ble'r oedd y boblogaeth LAC wedi sefydlogi ac i ystyried gwersi y gellid eu dysgu.
- Roedd y Tîm Ymateb Cyflym a Ffocws ar y Teulu yn fodolau seiliedig ar dystiolaeth. Oherwydd baich gwaith ac ymatebolrwydd gweithwyr cymdeithasol, roedd weithiau'n anodd gwreiddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â thimau rheng flaen.
- Nid oedd ffigurau LAC ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol wedi eu diweddarau eto. Disgwylid ffigurau Llywodraeth Cymru yn ystod mis Medi. Roedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn y broses o sefydlu ffigurau ei gilydd, ond roedd yn hysbys bod y ffigurau hyn wedi codi ym mhob awdurdod ledled Cymru.
- Byddai'r Rheolwr Grŵp newydd, a oedd wedi bod yn ei swydd am dri mis, yn arolygu strategaethau o ran ymyrraeth gynnar a rhwystro.
- Roedd yr agenda drawsnewid wedi ei dylunio i annog teuluoedd i helpu eu hunain.
- O ran cenedlaethau'r dyfodol, yr amcan oedd lleihau dibyniaeth ac i'r gwasanaeth gael ei ddefnyddio dim ond pan roedd popeth arall wedi methu.
- O ran mesur a barnu os oedd yr agenda drawsnewid wedi bod yn

Ilwyddiannus, dylai ymwneud â chanlyniadau a sicrhau amddiffyn.

- Er bod y ffigwr LAC yn uchel, roedd swyddogion yn hyderus bod y plant iawn yn derbyn gofal yn Nhorfaen ar hyn o bryd.
- Cydnabuwyd bod gwaith pellach i'w wneud o ran rhyddhau rhai o'r plant sy'n derbyn gofal yn effeithiol.
- Roedd darn o waith yn cael ei wneud ledled Cymru ar asesiadau seiliedig ar ganlyniadau. Roedd profiadau plant a aeth ymlaen i gael eu mabwysiadu yn cael eu harolygu.
- Roedd Torfaen wedi ei ddyfynnu fel un o'r awdurdodau lleol lle roedd pobl ifanc wedi gweld y nifer lleiaf o symudiadau.
- Roedd manteision lleoliadau mabwysiadu yn cael eu cydnabod ac roedd cymorth yn cael ei roi i rieni a oedd yn mabwysiadu.
- Roedd adroddiad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) yn nodi amseroldeb awdurdodau yn cael lle parhaol i blant. Roedd Torfaen wedi ei roi yn y rheng uchaf ar gyfer hyn.
- Ar ôl arolygu gwasanaethau ac ystyried cyfeiriad, roedd nifer o newidiadau i'w gwneud. Byddai hyn yn cynnwys arolygu trothwy, newidiadau mewn polisi yn y Tîm Lleoliadau Teuluoedd, yn cynnwys rheolaeth a'r Tîm Gwasanaethau Plant a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu rhannu. Gobeithid na fyddai gormod o darfu gyda'r dull hwn a byddai arbenigrwydd staff yn cael ei ddefnyddio i gyflenwi newidiadau'n raddol.
- Wrth integreiddio trawsnewidiad gwasanaeth gyda chynlluniau a strategaethau presennol, er mwyn i bob sefydliad gyfrannu'n llawn i'r saith amcan lles cenedlaethol, byddai'r gwasanaethau oedolion yn cael eu hintegreiddio gyda'r gyfarwyddiaeth; byddai gwaith rhanbarthol gyda'r gwasanaethau plant yn parhau; byddai effeithiolrwydd y gronfa ofal integredig yn cael ei ystyried a byddai gwaith partneriaeth gydag iechyd a'r heddlu yn parhau.
- O ran camau ymarferol, roedd amrediad eang o gyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda chydweithwyr iechyd ac addysg ar rai o'r problemau lles emosiynol y mae plant yn eu cael.
- Roedd cydweithredu yn parhau gyda phartneriaid allweddol a statudol megis yr Heddlu a Bron Afon a hefyd gyda chydweithwyr iechyd, addysg, yr Uned Cymorth Gwasanaethau Cyhoeddus a Diogelwch Cymunedol.
- Roedd rhai problemau gyda system y llys a oedd yn cael effaith arwyddocaol ar wasanaethau plant.
- Roedd y 'Strategaeth Peidiwch Cerdded Heibio' yn y broses o gael ei gweithredu. Roedd gwaith pellach i'w wneud o ran integreiddio Teuluoedd yn Gyntaf.
- Roedd ymchwil arwyddocaol yn dangos bod ymyrraeth gynnar yn ystod 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn yn hollbwysig o ran datblygiad y plentyn. Er bod y rhan fwyaf o atgyfeiriadau ar gyfer plant hyn na hyn, gwnaed pob ymdrech i gael sefyllfa barhaol i blentyn cyn gynted ag y bo modd er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.
- Roedd angen gwneud gwaith pellach er mwyn i bartneriaid a'r cyhoedd ddeall y meini prawf ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf.

- 4.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r HoCS am fynychu a chanmolodd waith ei staff.
- 4.3 Ar ôl cwblhau'r gweithgareddau craffu, daeth y Pwyllgor i ben trwy gynnig y sylwadau a'r argymhellion canlynol i'w hystyried:

#### **Argymhelliad 1:-**

Mae CAMHS wedi bod yn destun argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach o'r blaen. Tra bod y pwyllgor yn gwerthfawrogi'r anawsterau a wynebwr gan CAMHS wrth fedru lleihau'r galw ar y gwasanaeth oherwydd capasiti, mae'r pwyllgor yn argymhell bod mesurau lliniaru i ddelio gyda'r bylchau mewn darpariaeth yn cael eu hadnabod a'u cyfleu fel mater o flaenoriaeth.

#### **Argymhelliad 2:-**

Ar ôl diweddariad byr gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant, mae'r aelodau'n argymhell bod gwerthusiad o'r gwasanaeth ymateb cyflym yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor cyn cymryd unrhyw benderfyniadau.

#### **Argymhelliad 3:-**

Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn yr agenda drawsnewid. Roedd yr aelodau'n pryderu nad yw'r broses drawsnewid yn delio'n gynhwysfawr gyda'r holl newidiadau sy'n cael eu gweithredu ar ôl cyflwyniad Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

#### **Argymhelliad 4:-**

Mae'r pwyllgor yn argymhell eu bod yn cael y cyfle i graffu ar briodoldeb a chynnydd gweithrediad y cynllun trawsnewid.

#### **Argymhelliad 5:-**

Dylai'r rhaglen drawsnewid ymgorffori'r pum dull o weithio dan y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn fwy cynhwysfawr na datganiad syml ei fod yn arwain at dull mwy hirdymor a fydd yn effeithio cenedlaethau'r dyfodol.

#### **Argymhelliad 6:-**

Roedd y pwyllgor yn bryderus bod gwahaniaethau arwyddocaol rhwng gwaith timau'r gogledd a'r de. Argymhellir bod gwerthusiad yn cael ei wneud i sicrhau bod arferion y ddau dîm yn cael eu safoni a bod gwaith yn cael ei wneud i'r un canllawiau.

#### **Argymhelliad 7:-**

Argymhellir bod 'cefnogi pobl i gryfhau eu perthnasoedd teuluol, adnabod a datrys anawsterau eu hunain' yn neges allweddol i'w chyfleu fel rhan o'r broses drawsnewid.

### **Argymhelliad 8:-**

Bod darpariaeth triage gwasanaeth cwsmeriaid penodol ar gyfer Gwasanaethau'r Plant yn cael ei weithredu fel blaenoriaeth i sicrhau bod y bobl hynny sydd angen cymorth yn derbyn y lefel briodol o gymorth ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Hefyd, dylid monitro'r gwasanaeth yn agos i asesu effeithiolrwydd ac effaith.

Daeth y pwyllgor hefyd i'r casgliad yr hoffent gynnig y sylwadau cyffredinol canlynol:

Hoffai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach gyfleu eu diolch i Bennaeth y Gwasanaethau Plant a'i longyfarch ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn saith mis cyntaf ei benodiad. Roedd y pwyllgor yn falch o glywed iddo ymgymryd â phroses o arsylwi am gyfnod cyn cymryd unrhyw benderfyniadau ar sut i ddatblygu'r gwasanaeth at y dyfodol. Hoffai'r pwyllgor ei wahodd yn ôl yn y dyfodol agos i ystyried y cynigion ar gyfer cyfeiriad gwasanaeth y mae'n eu cyflwyno.

## **5 Eitem ar gyfer y Cyfarfod Nesaf**

- 5.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trafod yr eitem i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf gyda'r Swyddogion Craffu a'i dosbarthu i'r Pwyllgor er mwyn iddynt wneud sylwadau.

## **6 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf 22.11.18**

- 6.1 Mae'r cyfarfod nesaf i'w gynnal ar ddydd Iau 22 Tachwedd am 10:00am yn Siambr y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl.

**Llofnod .....** Cadeirydd  
**Dyddiad.....**

Cynhyrchwyd y cofnodion gan Dominique Redman, Uwch Swyddog Cymorth Busnes – Gwasanaethau Democrataidd, 4.10.2018